



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Lleihau nifer y cerbydau ger yr ysgol - rydym yn awyddus i hyrwyddo sefyllfa ddiogel i bawb wrth hebrwng plant i'r ysgol yn y bore a'u casglu ar ddiwedd y dydd. Mae trefniadau gollwng plant yn yr ysgol yn y bore yn gweithio'n effeithiol gyda llif y drafnidiaeth yn dda. Mae presenoldeb staff yr ysgol yn yr ardal hon yn hwyluso trefniadau'r rhieni / gwarcheidwaid wrth sicrhau diogelwch pawb rhwng 8.15 a 9 o'r gloch.

Mae trefniadau diwedd dydd yn faes mae'r ysgol yn awyddus i wella. Mae'r canlynol yn bethau a drafodwyd gyda'r Cyngor ysgol a Phwyllgor Eco'r disgyblion. Gobeithio y bydd modd i chi ystyried y canlynol;

- Lle bo modd rydym yn annog cerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol.
- Hoffwn weld mwy o rieni / gwarcheidwaid yn ystyried parcio tu hwnt i ardal yr ysgol – mae rhai yn defnyddio'r maes parcio ger adeilad y Mudiad Meithrin ac yna cerdded dros y bont i hebrwng / casglu plant. Mae cerdded o'r maes parcio i'r ysgol yn cymryd 5 munud.
- Mae modd parcio am ddim am gyfnodau penodol yn y maes parcio ger y Mudiad Meithrin yn ystod amser hebrwng plant i'r ysgol yn y bore ac am gyfnod pob prynhawn yn ystod tymor ysgol (3 – 4 o'r gloch)
- Ceisiwch gyrraedd ar gyfer yr amser penodol pan fydd eich plant yn cael eu rhyddhau o'r ysgol – 3.15, 3.20, 3.25 neu 3.30.
- Mae parcio ym maes parcio'r Ganolfan Hamdden yn syniad da ond cofiwch fod defnyddwyr y Ganolfan Hamdden hefyd yn defnyddio'r ardal hon.
- Cofiwch ddilyn rheolau'r ffordd fawr a pheidio parcio ar y llinellau melyn sydd yn ardal yr ysgol – mae'r wardeniaid traffig a'r heddlu yn monitro'r ardal hon yn achlysurol.
- Ceisiwch osgoi parcio ger ardal yr ysgol tua 2.30 ac yna aros yno tan 3.30 i gasglu plant.
- Rydym yn annog pawb i ddangos parch at drigolion sy'n byw ger ardal yr ysgol ac i osgoi parcio mewn llefydd sy'n creu anghyfleustra a thensiwn.

Eisteddfod Sir Ceredigion – llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod Ddawns Ceredigion ym Mro Teifi yn ystod yr wythnos. Pob dymuniad da i bawb yfory ym Mhontrhydfendigaid. Unigolion yn y bore, Cân Actol i gyrraedd erbyn 2.30 a'r Côr erbyn 4 o'r gloch.

Nosweithiau Agored – gobeithio eich bod wedi llwyddo i wneud apwyntiad i weld athro / athrawes eich plentyn ar gyfer nos Lun neu nos Fawrth wythnos nesaf. Mae croeso i chi gyrraedd ychydig yn gynt er mwyn cael golwg ar lyfrau'r disgyblion.

Gwyliau'r Pasg – cofiwch fod yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Pasg ar ddydd Iau, Mawrth 30ain ac yn ail agor ar ddydd llun, Ebrill 17eg.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith

R C Williams, Pennaeth

24/03/2023



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Reducing the number of vehicles near the school - we are keen to promote a safe environment for everyone when bringing children to school in the morning and collecting them at the end of the day. Arrangements for dropping children off at school in the morning are effective with the flow of traffic working well. The presence of the school staff in this area facilitates the arrangements of parents / guardians while ensuring everyone's safety between 8.15 and 9 o'clock.

End of day arrangements is an area the school is keen to improve. The following are ideas that were discussed with the school Council and the pupils' Eco Committee. I hope you will be able to consider the following;

- Where possible we encourage walking, cycling or scootering to school.
- We would like to see more parents / guardians considering parking beyond the school area - some use the car park near the Mudiad Meithrin building and then walk over the bridge to drop off / collect children. It takes 5 minutes to walk from the car park to the school.
- It is possible to park for free for certain periods in the car park near the Mudiad Meithrin during drop off times in the morning and for a period every afternoon during the school term (3 - 4 o'clock)
- Try to arrive for the specific time when your children are released from school - 3.15, 3.20, 3.25 or 3.30.
- Parking in the Leisure Centre car park is a good idea but remember that Leisure Centre users also use this area.
- Remember to follow the rules of the highway code and do not park on the yellow lines in the school area - the traffic wardens and the police monitor this area occasionally.
- Try to avoid parking near the school area around 2.30 and then staying there until 3.30 to collect children.
- We encourage everyone to show respect to residents who live near the school area and to avoid parking in places that create inconvenience and tension.

Ceredigion County Eisteddfod - congratulations to everyone who competed in the Ceredigion Dance Eisteddfod in Bro Teifi during the week. All the best to everyone competing tomorrow in Pontrhydfendigaid. Individuals in the morning, Càn Actol to arrive by 2.30 and the Choir by 4 o'clock.

Open Evenings - I hope you have managed to make an appointment to see your child's teacher for Monday or Tuesday evening next week. You are welcome to arrive a little earlier in order to have a look at the pupils' books.

Easter holidays - remember that the school closes for the Easter holidays on Thursday, March 30th and opens again on drawing day, April 17th.

If you have any concerns about your child's welfare or education, then please contact me immediately

R C Williams, Headteacher

24/03/2023